GLASTIR

Dyma ti, dyma fi
Ti yw'r unig un sy'n deall
Be sy yn fy nghalon i.
Dyma'r fan, dyma'r lle
Dyma'r glastir lle cawn ddechre
Bywyd newydd weden i.

Dyma'r lle, dyma'r tir
Dyma'r cartre cyntaf inni
Ga'l y cyfle, dyna'r gwir.
Dyma'r awr, dyma'r dydd
Dyma'r cyfle I sefydlu
Gwreiddie cadarn yn y pridd.

Swn y gwynt yn 'nail y coed
A thir ein hunan
Dan ein traed

Dyma ti, dyma fi
Does gen i'r un dymuniad
Ond i aros gyda thi.
Yma'i fyw yma'i fod,
Yn y glastir ger yr afon
Dyma'r lle dw'i am fod

Dyma'n tir, dyma'n tir
Dyma lle mae'n cartre' ni

© Geraint Griffiths 2001